Chwarae! Y glud sy'n dal y diwrnod ysgol at ei gilydd

Bae Colwyn 1af Gorffennaf 2010

Cynhadledd deithiol No Ball Games!

www.noballgames.eu

Cynhadledd o gyflwyniadau ynghylch pam a sut i ddatblygu cyfleoedd chwarae cyn, yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol gynradd

ar gyfer athrawon, staff cynorthwyol, ymgynghorwyr addysg a'r blynyddoedd cynnar, pobl y Cyfnod Sylfaen, Canolfannau Plant, pobl Ysgolion Bro a gweithwyr chwarae Gogledd Cymru

"Gall mwy o 'chwarae' yn yr ysgol newid y diwrnod ysgol yn sylweddol – er gwell a gwneud addysgu'n haws – gellir ei wneud yn rhad hefyd

Dewch i glywed syniadau ar gyfer dechrau o'r dechrau neu ar gyfer datblygu'r hyn sydd gennych eisoes



Lleoliad:

The Interchange,
Bae Colwyn, Conwy

(cyfeiriad ar dudalen 2)

Gweler ein gwefan www.noballgames.eu i ddysgu mwy amdanom ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud

Cewch atebion i'ch holl gwestiynau, fel...

- *Fe alla' i drawsnewid tir fy ysgol am lai na £10,000 …. Sut?*
- Beth am Iechyd a Diogelwch?
- *Sut mae hyn yn ffitio gyda gwella'r ysgol a'r arolwg ysgol?*
- Pam na ddylwn i dorri lawr ar amser chwarae ac amser cinio er mwyn cynyddu amser gwersi?
- *Sut allwn ni ddelio â difrod a fandaliaeth ar ôl oriau ysgol?*
- Beth sydd wedi digwydd i gemau traddodiadol?
- *Beth alla' i ei wneud a sut ddylwn i ei wneud?*
- Beth yw gwaith chwarae?
- *A'r bythol-boblogaidd … Pam fod ein maes chwarae'n sgwâr?*

...A llawer, llawer mwy

Cofrestrwyd No Ball Games! Ltd yng Nghymru a Lloegr (06568724) Cyfeiriad Post: 16 Leybank, Hildenborough, KENT TN11 9EH
Ffôn: (+44) 07702 754436 ebost: events@noballgames.eu gwefan www.noballgames.eu
Cyfarwyddwyr: Marc Armitage a Rachel Murray

Fe ŵyr pawb am werth a phwysigrwydd chwarae mewn dysg blynyddoedd cynnar ond efallai bod gwerth chwarae i blant hŷn, yn enwedig 'chwarae rhydd' cyn, yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol a pha effaith y gall ei gael ar addysgu a dysgu, yn llai hysbys. Yn amlach na pheidio caiff 'chwarae' ymysg plant hŷn yn yr ysgol ei ystyried mewn modd negyddol ac amser chwarae fel 'adeg yn llawn problemau'.

Ond mae chwarae ar yr agenda. Mae addysg y blynyddoedd cynnar bellach wedi ei seilio'n gadarn ar chwarae ac mae arolygon ysgolion a thargedau'r llywodraeth yn ymwneud yn gynyddol ag agweddau bugeiliol bywyd ysgol ar gyfer pob oedran – ac mae hynny'n cynnwys chwarae.

Daw'r Gynhadledd Deithiol hon â phobl sy'n gweithio mewn ysgolion ynghyd â nifer o arbenigwyr chwarae hynod o brofiadol o bob cwr o Brydain ac Iwerddon, y mae gan bob un ohonynt brofiad uniongyrchol o gynghori a chynorthwyo ysgolion ac awdurdodau addysg i ddatblygu cyfleoedd pellach ar gyfer chwarae yn yr ysgol gynradd.

Maent wedi llwyddo i helpu nifer o ysgolion i oresgyn eu pryderon ynghylch materion megis diogelwch, goruchwylio, yswiriant, cost, difrod a fandaliaeth ymysg materion eraill. Fe wnewch adael y diwrnod gyda llwyth o syniadau realistig, cysylltiadau defnyddiol ac wedi dysgu'r gwir ynghylch rhai straeon celwyddog. Yn sicr, chewch chi ddim eich diflasu!

Prif Araith: Chwarae yn yr Ysgol

gan Marc Armitage
Ymgynghorydd Chwarae Plant Annibynnol

"Bydd plant a phobl ifainc hapus yn ddysgwyr hapus, a bydd plant yn dweud wrthym eu bod fwyaf hapus pan fyddant yn treulio amser gyda'u ffrindiau'n chwarae'n rhydd. Felly, ewch ati i ddatblygu gwell cyfleoedd ar gyfer chwarae cyn, yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol ac fe fydd gennych blant hapusach fydd yn arwain at lefel **presenoldeb** gwell a mwy rheolaidd, gwell **cyrhaeddiad dysgu**, a llai o bryderon **ymddygiad**.

"Chwarae yw'r glud sy'n dal y diwrnod ysgol at ei gilydd. 'Does dim rhaid bod yn athrylith!

"Y gamp yw sicrhau **gwerth am arian**, ac i wneud hynny bydd raid ichi wybod beth sy'n gweithio a beth sydd ddim."

Chwarae! Y glud sy'n dal y diwrnod ysgol at ei gilydd
Cynhadledd Deithiol No Ball Games!

Rhaglen

9.15	Coffi a Chofrestru
9.45	Croeso ac Araith Agoriadol
10.10	**Prif Araith:** **'Beth mae 'chwarae' yn yr ysgol yn ei olygu?'** **Marc Armitage,** **Ymgynghorydd Chwarae Annibynnol**
10.50	**Sesiwn 1** – dewis o:

'Pam fod y maes chwarae'n sgwâr a pham fod hynny o bwys?'
Marc Armitage, Ymgynghorydd Chwarae Annibynnol

'Y tu hwnt i'r 'Trim Trail' – ychwanegu 'antur' i'r maes chwarae'
Jess Milne, Design & Build

'Gwaith Chwarae – cefndir academaidd ac athronyddol'
Ben Tawil,

'P3: gwneud i chwarae weithio yn eich ysgol chi'
Richard Trew, Chwarae Cymru

Sylwer: Mae'n bosibl y bydd sesiynau eraill ar gael ar y dydd hefyd

12.20	Cinio, Rhwydweithio ac Arddangosfeydd
1.10	**Sesiwn 2** (rhan 2)
2.40	Araith Clo a Newyddion
3.00	Diwedd y Gynhadledd

Lleoliad: The Interchange, 317-319 Ffordd Abergele, Hen Golwyn, Bae Colwyn, Conwy LL29 9YF
Rhif Ffôn y lleoliad 01492 514021

Cost: £85 y person yn cynnwys cinio

I Archebu: ebost: events@noballgames.eu

Mae croeso i Stondinau ac Arddangosfeydd – defnyddier yr un ebost ar gyfer ymholiadau

www.noballgames.eu

Cofrestrwyd No Ball Games! Ltd yng Nghymru a Lloegr (06568724) Cyfeiriad Post: 16 Leybank, Hildenborough, KENT TN11 9EH
Ffôn: (+44) 07702 754436 ebost: events@noballgames.eu gwefan www.noballgames.eu
Cyfarwyddwyr: Marc Armitage a Rachel Murray

SUT I ARCHEBU

Er mwyn archebu lle ar y digwyddiad hwn, anfonwch ebost at

events@noballgames.eu

Yn eich ebost nodwch:

- Y nifer o leoedd yr ydych am eu harchebu
- Enw a theitl swydd pob person sydd am archebu lle (ar gyfer eich bathodynnau enw)
- Eich sefydliad / man gwaith
- Unrhyw anghenion deietegol neu symudedd
- Eich rhif archeb brynu, os yn berthnasol
- Cyfeiriad ebost cyswllt
- Cyfeiriad postio cyswllt

Gallwn dderbyn bloc-archebion ymlaen llaw

COFIWCH BASIO MANYLION Y DIGWYDDIAD HWN YMLAEN I BOBL ERAILL Y GALLAI FOD O DDIDDORDEB IDDYNT

Welwn ni chi ar y diwrnod

www.noballgames.eu

Supported by

Neu

- defnyddiwch y ffurflen cyswllt ar ein gwefan ar www.noballgames.eu/contact
- neu ysgrifennwch atom, gan amgáu eich taliad, at NBG! 16 Leybank, Hildenborough, Kent TN11 9EH
- Os hoffech dderbyn anfoneb, neu os hoffech wneud ymholiad cyffredinol, ebostiwch events@noballgames.eu neu galwch Rachel ar (+44) 07702 754436

Cost y digwyddiad hwn yw £85 y pen, ac mae'n cynnwys cinio llawn, pecyn cwrs a deunyddiau cefnogol

Mae'n bosibl y bydd nifer cyfyngedig o leoedd ar gael am bris rhatach. Cysylltwch â ni am fwy o fanylion

Rydym hefyd yn derbyn stondinau ac arddangosfeydd gwybodaeth – cofiwch ebostio neu alw am fwy o fanylion

Polisi Archebu

- Byddwn yn cadarnhau eich archeb trwy ebost i'r cyfeiriad a nodwyd
- Bydd raid sicrhau taliad llawn cyn y digwyddiad, oni bai y gwnaethpwyd trefniadau gwahanol ymlaen llaw
- Y telerau talu yw o fewn 28 diwrnod o ddyddiad yr anfoneb
- Os ydych am ganslo, dylech ein hysbysu'n ysgrifenedig neu trwy ebost ddim hwyrach na 7 diwrnod cyn y digwyddiad, a chodir ffî canslo o 15%
- Ni ellir canslo ar ôl y cyfnod hwn
- Trwy ymgeisio i fynychu un o'n cynadleddau caiff eich manylion eu hychwanegu i'n rhestr cysylltiadau ac mae'n bosibl y byddwn yn anfon gwybodaeth ynghylch digwyddiadau eraill atoch o dro i dro. Os hoffech inni dynnu eich manylion oddi ar y rhestr yma, cofiwch ddweud wrthym

Cofrestrwyd No Ball Games! Ltd yng Nghymru a Lloegr (06568724) Cyfeiriad Post: 16 Leybank, Hildenborough, KENT TN11 9EH
Ffôn: (+44) 07702 754436 ebost: events@noballgames.eu gwefan www.noballgames.eu
Cyfarwyddwyr: Marc Armitage a Rachel Murray